# SL(6)769 – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026

## Cefndir a Diben

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg ("safonau"). Mae'r safonau hyn yn disodli'r cynlluniau iaith Gymraeg y darperir ar eu cyfer yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae adran 26 o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau, ac mae adran 39 yn eu galluogi i ddarparu bod safon yn benodol gymwys i berson drwy awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i roi hysbysiad i'r person hwnnw sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gydymffurfio â'r safon ("hysbysiad cydymffurfio").

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru (y cyfeirir atynt yn y Rheoliadau fel "cyrff"). Nid yw'r Rheoliadau yn cael effaith uniongyrchol ar gyrff ac ni fyddant, ar eu pennau eu hunain, yn creu hawliau i bobl. Bydd hynny ond yn digwydd pan fydd yr holl amodau yn adran 25 y Mesur wedi'u bodloni. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn galluogi'r Comisiynydd i roi hysbysiad cydymffurfio i'r cyrff hynny, mewn perthynas â safonau a bennir yn y Rheoliadau, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff gydymffurfio â safonau.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 i ychwanegu Cartrefi Cymunedol Cymru at Atodlen 6 i'r Rheoliadau hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn defnyddio'r wyddor Gymraeg yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg. Mae'r arddull hon yn wahanol i'r arddull rifo arferol a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru. Mabwysiadwyd yr un arddull yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 a'r Rheoliadau dilynol sy'n pennu safonau'r Gymraeg.

Teitl y Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026. Os cânt sêl bendith y Senedd, dyma fydd y 9$^{fed}$ set o Reoliadau Safonau'r Gymraeg i gael eu gwneud. Fel arfer mae rhif yn enw un o gyfres o Offerynnau Statudol yn cyfeirio at y nifer a wnaed yn y flwyddyn benodol. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol ("y Memorandwm") yn egluro mai'r bwriad yw y bydd yr holl Reoliadau a wneir o dan adran 26 o'r Mesur yn cael eu gwneud mewn cyfres, yn yr un modd â gorchmynion cychwyn.

## Gweithdrefn

Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.**

Ym mharagraff 13 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn, yn y testun Cymraeg, mewn perthynas ag ystyr "ffurflenni", cyfeirir at safon 81. Nid yw'r cyfeiriad hwn yn ymddangos yn y ddarpariaeth gyfatebol yn y testun Saesneg.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 32 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn yn nodi, at ddibenion safonau 35, 38, 59 a 63, a Rhan 3 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn, nad yw cyfeiriadau at ddogfennau neu ddeunyddiau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru neu sy'n cael eu cynhyrchu at ddefnydd y cyhoedd yn cynnwys dogfennau neu ddeunyddiau sydd ar gael i'r cyhoedd yn rhinwedd Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn unig.

Nodir bod mynediad y cyhoedd at wybodaeth amgylcheddol a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus yn cael ei ddarparu yn rhinwedd Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi mynediad i'r cyhoedd at y rhan fwyaf o fathau *eraill* o wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus.

Er y nodir nad yw darpariaethau cyfatebol neu ddarpariaethau tebyg mewn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg blaenorol yn cyfeirio at y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, gofynnir i Lywodraeth Cymru egluro pam nad yw'r datgymhwysiad y darperir ar ei gyfer o dan baragraff 32 o Atodlen 1 wedi'i ymestyn i ddogfennau neu ddeunydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn rhinwedd y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yn unig.

Er cyflawnrwydd, derbynnir bod y cwestiwn ynghylch a yw corff yn dod o fewn y diffiniad o 'awdurdod cyhoeddus' (*"public authority"*) o dan reoliad 2 o'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, ac felly cwmpas y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, yn aml yn un cymhleth.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2026 ("y Gorchymyn"), a osodwyd gerbron y Senedd ar 10 Chwefror 2026.

Mae Adran 25 o'r Mesur yn nodi bod rhaid i berson gydymffurfio â safon ymddygiad a bennir gan Weinidogion Cymru os bodlonir, a thra bodlonir, chwe amod. Amod 1 yw bod y person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau. Amod 2 yw bod y safon yn gymwysadwy i'r person.

Mae adran 33 o'r Mesur yn darparu bod person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau os yw'r person (a) yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu (b) yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8. Mae person yn dod o fewn Atodlen 5 os yw'r person yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 5. Mae person yn dod o fewn Atodlen 6 os yw'r person (a) wedi ei bennu yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 6, neu (b) yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yn y golofn honno. Nid yw Atodlenni 7 ac 8 yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Mae adrannau 35 a 38 o'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6. Mae'r Gorchymyn yn diwygio Atodlen 6 i'r Mesur drwy fewnosod Cartrefi Cymunedol Cymru yn Atodlen 6 a phennu dosbarthiadau o safonau yng ngholofn 2.

Mae'r diwygiad hwn i'r Mesur yn sicrhau bod Cartrefi Cymunedol Cymru yn agored i orfod cydymffurfio â safonau. Mae hyn yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn gan fod diwygiad yn cael ei wneud, drwy reoliad 4, i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 ("Rheoliadau Rhif 2") i ychwanegu Cartrefi Cymunedol Cymru at Atodlen 6 i Reoliadau Rhif 2. Mae hyn yn awdurdodi Comisiynydd y Gymraeg i roi hysbysiad cydymffurfio i Gartrefi Cymunedol Cymru, fel person a restrir yn Atodlen 6 i Reoliadau Rhif 2, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â safonau a bennir o dan reoliad 2 o Reoliadau Rhif 2 (gweler rheoliad 3(1) o Reoliadau Rhif 2).

Os caiff ei wneud, byddai'r Gorchymyn yn dod i rym ar 30 Mawrth 2026. Byddai'r Rheoliadau hyn, gan gynnwys rheoliad 4, yn dod i rym ar 31 Mawrth 2026, os cânt eu gwneud.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae paragraff 2.3 o'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn egluro bod Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ("Deddf 2025") yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gwblhau adolygiad o safonau penodol a bennir o dan adran 26 o'r Mesur o fewn 12 mis ar ôl cyhoeddi Cod ("y Cod") ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg. Rhaid i'r Cod fod yn seiliedig ar y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd.

Nodir nad yw adran 4 (sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r safonau penodedig o fewn 12 mis ar ôl cyhoeddi'r Cod), adran 6 (sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi'r Cod), ac adran 7 (sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi ac adolygu'r Cod) o Ddeddf 2025 wedi'u dwyn i rym eto drwy orchymyn cychwyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Memorandwm yn egluro mai pwrpas yr adolygiad *"fydd penderfynu a oes angen diwygio safonau penodol er mwyn hwyluso cyrraedd targedau a osodwyd mewn Strategaeth y Gymraeg ddiwygiedig neu i adlewyrchu'r Cod a lunnir o dan y Ddeddf."*

Mae hyn yn awgrymu, gan fod y Rheoliadau hyn wedi'u cynnig i'w gwneud o dan adran 26 o'r Mesur, y bydd y safonau a nodir yn y Rheoliadau hyn yn destun yr adolygiad hwnnw.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru o ran y pwynt adrodd cyntaf a'r ail bwynt adrodd yn unig.

**Ymateb y Llywodraeth:**

**Pwynt Craffu Technegol 1:**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt adrodd a bydd yn gwneud y mân gywiriad cyn gwneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:**

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y mater hwn yn ymestyn y tu hwnt i'r Rheoliadau hyn. Felly, rydym yn bwriadu ystyried a oes angen cyflwyno deddfwriaeth i ddiwygio pob set o Reoliadau Safonau i bennu y dylai dogfennau sy'n cael eu rhoi ar gael i'r cyhoedd o ganlyniad i Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 gael eu hesemptio o'r gyfundrefn safonau.

*Mân gywiriadau i'w gwneud cyn gwneud y Rheoliadau*

| **CYWIRIADAU I'R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** | **CYWIRIADAU I'R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD Y RHEOLIADAU** |
|---|---|
| **Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 10) 2026** | **The Welsh Language Standards (No. 10) Regulations 2026** |
| | Ym mharagraff 13 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn ar ôl "standards" mewnosoder "81,". |
| Bydd mân faterion fel fformatio a gwallau teipograffyddol yn cael eu cywiro, a bydd mân newidiadau yn cael eu gwneud i'r nodyn esboniadol a'r troednodiadau, cyn gwneud y Rheoliadau. | |

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.